# Rheolau'r Ystafell Chwilio

Mae'r cofnodion a gedwir gan Archifdy Morgannwg yn unigryw, yn aml yn fregus ac weithiau'n gyfrinachol. Er mwyn iddynt oroesi, mae angen eu trin â pharch a chydymffurfio â rheolau sy'n diogelu preifatrwydd yr unigolion a enwir ynddynt. Mae'r rheolau canlynol yn sefydlu fframwaith ar gyfer cael mynediad i'r cofnodion a gedwir yma, ac rydym yn gofyn i chi gydymffurfio â nhw er mwyn diogelu'r cofnodion i'w defnyddio nawr a chan genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad.

*Susan Edwards, Archifydd Morgannwg, Gorffennaf 2010*

**Trwy gofrestru gydag Archifdy Morgannwg, rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r rheolau canlynol:**

- Ni ddylid mynd â chotiau, bagiau na hetiau i mewn i'r ystafell chwilio – dylid eu gadael yn y cypyrddau clo a ddarperir.
- Gallwch fynd â phad o bapur a/neu ffeil o nodiadau ymchwil i mewn i'r ystafell chwilio, ond efallai y gofynnir i chi eu gadael wrth y cownter wrth bori trwy ddogfennau gwreiddiol.
- Ni chaniateir pinnau ysgrifennu yn yr ystafell chwilio – dim ond pensiliau.
- Ni chaniateir unrhyw fwyd na diod yn yr ystafell chwilio.
- Ni chaniateir ysmygu yn unrhyw ran o'r adeilad na'r tir o gwmpas.
- Mae'n rhaid i ymchwilwyr ddilyn y gweithdrefnau archebu dogfennau sydd ar waith.
- Dylid trafod dogfennau archifol cyn lleied â phosibl a chyda gofal mawr bob amser, gan ddilyn ein canllawiau "Trafod Dogfennau". Ni ellir cyflwyno dogfennau sy'n rhy fregus i'w trafod.
- Er parch i ymchwilwyr eraill, dylech weithio mor dawel â phosibl. Dylid troi ffonau a dyfeisiau symudol eraill i'r modd tawel, ac ni ddylid eu defnyddio i sgwrsio.
- Gellir defnyddio gliniaduron yn yr ystafell chwilio, ond mae'n rhaid i fagiau/casys gael eu gadael mewn cwpwrdd clo. Mae'n rhaid i chi ddangos y gliniadur, yn agored, i staff wrth i chi adael.
- Gellir defnyddio camerâu i dynnu lluniau o ddogfennau, yn amodol ar gyfyngiadau hawlfraint neu adneuwyr – gofynnwch i aelod o staff cyn tynnu unrhyw luniau.
- Dim ond ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig gan Archifydd Morgannwg y gellir cyhoeddi neu atgynhyrchu unrhyw ddogfennau, yn llawn neu'n rhannol.
- Hwyrach y cyfyngir ar fynediad i rai cofnodion yn unol â deddfwriaeth gyfredol.
- Caiff cofnodion eu cyflwyno yn ôl disgresiwn yr Archifydd ar ddyletswydd.
- Ni ddylid mynd ag unrhyw ddogfen o'r ystafell chwilio.

**Gall unrhyw ymchwilydd nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau hyn neu sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, difrod i unrhyw ddogfennau gael ei wahardd o Archifdy Morgannwg.**